

Arbed Amser ar Siwrneiau - Stryd Fawr Shotton

Cwestiynau a Ofynnir yn Aml

C1. Beth yw'r cynllun?

A1. Cyflwyniad i fesurau Amser Siwrneiau bws a char gan gynnwys:

- Ailasesu systemau Unffordd presennol
- Diwygio darpariaethau troi i'r dde
- Cynllun ffordd – ffurfioli cilfannau
- Mesurau blaenoriaethu cyffyrdd

C2. Beth yw prif amcanion y cynllun?

A.2 Bydd y cynllun yn:

Lleihau amser siwrneiau bws a char ar hyd y llwybr

Cynyddu defnydd o gludiant cyhoeddus a cherdded a beicio

Bydd cynyddu'r defnydd o gludiant cyhoeddus a cherdded a beicio yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni targedau datgarboneiddio a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Hwyluso mynediad cynaliadwy o safleoedd cyflogaeth, cyfleusterau hamdden a man preswyllo.

C3. Beth fydd yn digwydd ar ôl y cyfnod ymgynghori?

A3. Bydd y Cyngor yn adolygu'r adborth sy'n dod i law, a bydd diweddariadau yn cael eu darparu drwy Wefan y Cynghorau Sir

C4. Pwy sy'n ariannu'r cynllun?

A4. Mae'r Cynllun Arbed Amser ar Siwrneiau yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.

C5. Pwy sy'n gyfrifol am ddarparu'r cynllun?

A5. Cyngor Sir y Fflint sydd yn gyfrifol am ddarparu'r cynllun.

C6. Pam fod mesurau beicio yn cael eu cynnig?

- A6 Mae Cyngor Sir y Fflint wedi sicrhau cyllid ar gyfer Arbedion ar Amser Siwrneiau ar hyd Stryd Fawr Shotton. Yn ychwanegol i'r cynigion hyn ac yn dilyn nifer o gwynion perthnasol i ddamweiniau agos gyda beicwyr ar y droedffordd, mae'r Cyngor wedi cymryd y cyfle i ymgynghori ar fesurau beicio. Mae'r adborth a gasglwyd gan breswylwyr, busnesau a defnyddwyr ffordd yn caniatáu'r Cyngor i ddeall yr awch am fesurau beicio posibl yn y lleoliad hwn.
- C7. A yw'r cynigion yn ddiogel i feicwyr a cherddwyr?
- A7. Mae pob cynnig wedi'u llunio'n unol â'r canllaw priodol ac yn cael Archwiliad Diogelwch Ar y Ffyrdd yn y cam dylunio manwl. Rhowch wybod i ni os oes gennych bryderon ar y ffurflen adborth.
- C8. Lle alla' i gael rhagor o wybodaeth?
- C8. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Cyngor Sir y Fflint, neu drwy ffonio 01352 701234